

Yn y Rhifyn Hwn:

- Lansio Sialens Ddarllen yr Haf
- Teithio i Fyd y Llyfr
- Fideo Sialens Ddarllen yr Haf
- Rhestr Fer Llyfr y Flwyddyn
- Oriau Agor Llyfrgelloedd

Mae 'Sialens Ddarllen yr Haf' wedi cyrraedd!!


Y thema eleni ydi 'Arwyr y Byd Gwylt' – wyt ti'n barod am haf llawn hwyl darllen gwylt?

Cofia fynd i dy lyfrgell leol i ymuno â'r sialens ac i dderbyn sticeri, gemau a phecyn dechrau arni. Y cwbl sydd arnat ti angen ei wneud i gwblhau'r sialens ydi darllen 6 llyfr dros wyliau'r haf!


Ac mae yna fedal a thystysgrif arbennig i'r holl anturiaethwyr sy'n cwblhau'r sialens...

TEITHIO I FYD Y LLYFR...

Mae llyfrau yn gallu ein tywys ni i wahanol lefydd a chyfnodau – felly galwa heibio dy lyfrgell leol i ddechrau ar dy daith nesaf!



Llyfr y Mis



AR GAEL RWAN

Ymweliadau Rhithiol gan Staff y Llyfrgell i Wyllo a Rhannu!

Gwylia'r fideo hwyliog yma i ddysgu mwy am gymryd rhan yn 'Sialens Ddarllen yr Haf'...



Croeso fforwyr i 'Sialens Ddarllen yr Haf - Arwyr y Byd Gwyllt'




RHESTR FER LLYFR Y FLWYDDYN!!

Mae Rhestr Fer Gwobr Llyfr y Flwyddyn wedi'i chyhoeddi, ac mae pob un yn wirioneddol wych!

Mae 'na bedwar categori – Barddoniaeth, Ffuglen, Ffeithiol Greadigol a Phlant a Phobl Ifanc.

Bydd Radio Cymru yn cyhoeddi'r enillwyr mewn cyfres o ddarllediadau ar 2, 3 a 4 Awst.




ymlacio **read**
dysgu explore
darllen **learn**



ORIAU AGOR Y LLYFRGELLOEDD

Clicia ar y llun isod i weld oriau agor newydd holl lyfrgelloedd Conwy!





PETHAU I GADW LLYGAD AMDANYNT...

- Enillwyr Gwobr Llyfr y Flwyddyn!
- Holl hwyl ein Sialens Ddarllen yr Haf ar ein cyfryngau cymdeithasol

LLYFRAU SIALENS DDARLLEN YR HAF!

Thema Sialens Ddarllen yr Haf eleni ydi 'Arwyr y Byd Gwylt' ac rydym ni wedi dewis ychydig o lyfrau "gwylt" i dy helpu di ddechrau arni...

Cofia ymuno â'r sialens yn dy lyfrgell leol neu ar [Sialens Ddarllen yr Haf Cymru](#) a darllen 6 o lyfrau yn ystod y gwyliau!



Darluniau © Heath McKenzie 2021

Sialens Ddarllen yr Haf 2021

ARWYR Y BYD GWYLLT

Cyflwynwyd gan Yr Asiantaeth Ddarllen
a'i darparu mewn partneriaeth â llyfrgelloedd.

WWF CYDWEITHRO ER MWYNYN YSBRYDOLU DARLLENWYR FANC I SEFYLL DRIS EN PLANED THE READING AGENCY

SIALENS DDARLLEN YR HAF